Deall Dyneiddiaeth

# BETH YW AGWEDD DYNEIDDIAETH TUAG AT DDEALL Y BYD?



Mae'r byd yn lle **naturiol**. Allaf i ddim gweld unrhyw dystiolaeth na rheswm i gredu mewn unrhyw beth goruwchnaturiol. Mae'r byd yn ddigon **rhyfeddol** hebddo.

JULIAN

**Gwyddoniaeth** yw'r ffordd orau o ddeall y byd. Mae'n gofyn **cwestiynau'n** barhaol, ac mae'n chwilio am **dystiolaeth**.



HARI



Dylem ni fod yn **rhydd** i gredu beth bynnag rydym ni'n ei ddymuno. Fodd bynnag, mae hynny'n dod â **chyfrifoldeb** i feddwl yn ofalus pam rydym yn credu'r hyn yr ydym yn ei gredu.

LINDSAY

Mae'n rhaid i ni fod yn gyfforddus ag **ansicrwydd**. Efallai na fyddwn ni byth yn gwybod yr ateb i bopeth. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylem ni roi'r gorau i chwilio am atebion. Gall **chwilfrydedd** fod yn un o bleserau mawr bywyd.



ZENA

Dylem ni bob amser chwilio am **esboniadau naturiol**. Mae'n bosibl na fyddwn ni byth yn ateb ein holl gwestiynau ynghylch sut mae'r byd yn gweithio, ond nid yw hynny'n golygu na fydd esboniad naturiol.



ALEX WILLIAMS

**Rwy'n anffyddwraig. Nid wyf i'n credu mewn duw. Yn syml, allaf i ddim gweld unrhyw dystiolaeth na rheswm i gredu ac felly rwy'n bwrw ymlaen â fy mywyd heb boeni amdano.**



LAUREN

© HUMANISTS UK 2021